



AWEL AMAN Tawe (AAT)

www.aat.cymru

www.hwbygors.cymru

Hwb y Gors, Heol y Gors, Cwmgors, SA18 1UU

Recruitment Pack

Communications Manager

Pecyn Recriwtio

Rheolwr Cyfathrebu

Who we're looking for	2
Terms of Employment.....	2
Who we are	3
Purpose of the Role.....	3
Key Responsibilities.....	3
Person Specification.....	5
Why join Awel Aman Tawe?	6
Application process.....	6
Equal opportunities.....	6
Pwy rydym yn chwilio amdanynt	7
Telerau Cyflogaeth.....	7
Pwy ydym ni.....	8
Diben y Swydd	8
Prif Gyfrifoldebau	8
Manyleb Person	10
Pam ymuno ag Awel Aman Tawe?	11
Y Broses Ymgeisio.....	11
Cyfle Cyfartal	11

Who we're looking for

Help tell the story of a greener, fairer future

Awel Aman Tawe is one of the UK's most successful community energy organisations.

For nearly three decades we have been demonstrating how communities can tackle climate change, create local jobs, reduce fuel poverty and generate lasting social change through community ownership, co-operative approaches and innovation.

Today we are entering an exciting new phase. Following the opening of Hwb y Gors, our flagship low-carbon community hub, we are looking for an ambitious Communications Manager to help us share our story with wider audiences and establish AAT as a nationally recognised voice for practical climate solutions.

You'll help shape public understanding of what community-led climate action can achieve. You'll uncover inspiring human stories, build relationships with journalists and partners, create engaging campaigns and ensure the impact of our work reaches communities, funders, policymakers and supporters.

We're looking for someone who combines excellent communications skills with creativity, strategic thinking and a passion for making a difference.

Terms of Employment

Employer: Awel Aman Tawe

Reports to: Creative Director

Salary: £34–36k per annum, pro rata (dependent on experience and qualifications)

Hours: 3 days per week

Contract: 3 years

Location: Hwb y Gors, Cwmgors, SA18 1RF (with some home working as appropriate)

Holiday: 25 days plus statutory (pro rata)

Pension: 6.5% employer contribution

Deadline for Applications: 17th August 2026

Interviews: 1st September 2026

Who we are

Awel Aman Tawe (AAT) is one of the UK's most established community energy organisations.

For 27 years we have been pioneering community-led solutions to climate change, fuel poverty and economic inequality. We have developed two renewable energy co-operatives, created local jobs and opportunities and invested surplus income into low carbon community resilience projects.

In 2025 we opened Hwb y Gors, a flagship low carbon headquarters and community hub in the Upper Amman Valley. Today AAT is demonstrating how community ownership, creativity and climate action can work together to create lasting change.

We are entering an exciting and pivotal phase. Alongside our established renewable energy assets, we are developing new infrastructure, including a solar farm and battery storage project which will share the grid connection with our existing wind turbines (one of the UK's first "tribrid" systems). We are also advancing shared ownership wind and solar projects with commercial developers – these are multi-million pound projects and will be getting built over the next 2-10 years. We are also expanding our portfolio of community, education and enterprise activities.

We are a dynamic, values-driven organisation with a strong track record and ambitious plans for the future.

Purpose of the Role

To lead and deliver Awel Aman Tawe's communications strategy, building our profile as a leading voice in community-led climate action and ensuring our impact reaches communities, funders, broadens the membership of our co-op share offers as an investment tool, policymakers, investors, partners and the wider public.

The Communications Manager will help transform AAT's extensive experience, evidence and achievements into compelling stories and campaigns that inspire action, attract support and demonstrate that a green and fair economy is both possible and already happening.

Key Responsibilities

Strategic Communications

- Lead the implementation and ongoing development of AAT's Communications Strategy.
- Develop annual communications and content plans aligned with organisational priorities.
- Strengthen AAT's reputation as a leading community energy and climate action organisation.
- Develop clear messaging frameworks and organisational narratives.
- Ensure communications support fundraising, co-op share offers, partnership development and organisational growth.

Storytelling and Content Creation

- Transform project outcomes, monitoring data and evaluation evidence into compelling and accessible stories.
- Develop content around AAT's four communication pillars:
- Solutions in Action
- Expert Voice
- Human Stories
- The Path Forward.
- Oversee the production of high-quality photographic and video content.
- Build a library of case studies, testimonials, photographs and impact stories.
- Lead the production of newsletters, reports, blogs, impact summaries & campaign materials.

Hwb y Gors Profile Raising

- Establish Hwb y Gors as a recognised flagship centre for community-led climate action and sustainable development.
- Develop media opportunities, visits and showcase events that increase awareness of the centre.
- Support the promotion of new initiatives including the Kitchen Academy, Community Transport, Energy Advice and future developments.

Media Relations

- Build and maintain relationships with journalists and media organisations.
- Develop proactive media campaigns and press opportunities.
- Identify opportunities for AAT spokespeople to provide comment on climate, renewable energy and community development issues.
- Draft press releases, media responses and opinion pieces.
- Monitor and evaluate media coverage.

Digital Communications

- Oversee AAT, Hwb y Gors websites and potentially the development of a separate website for Egni Co-op
- Lead development of social media content and campaigns.
- Manage audience engagement across digital platforms.
- Grow newsletter subscriber audiences and improve engagement.
- Monitor digital analytics and use insights to improve performance.

Stakeholder and Partner Engagement

- Support communications with investors, members and supporters.
- Develop communications aimed at funders, policymakers and strategic partners.
- Strengthen relationships with organisations including Community Energy Wales, Climate Cymru and other partners.
- Support consultations, campaigns and wider sector initiatives.

Internal Communications

- Produce regular communications for staff, trustees and investors.
- Support staff to become ambassadors and storytellers for the organisation.
- Develop communication resources, templates and guidelines.
- Ensure consistent branding and messaging across teams.

Monitoring and Evaluation

- Develop communications KPIs.
- Monitor social media, website and media performance.
- Produce quarterly impact and communications reports.
- Evaluate communications activity and recommend improvements.

Person Specification

Essential

Experience

- At least 5 years' experience in a communications, marketing, PR, journalism or related role.
- Experience developing and implementing communications strategies.
- Experience generating media coverage and working with journalists.
- Experience producing content across multiple platforms and channels.
- Experience managing websites, newsletters and social media.
- Experience measuring communications impact and analysing performance.

Knowledge & Skills

- Exceptional writing and storytelling skills.
- Ability to turn complex information, evidence and data into engaging public-facing content.
- Strong understanding of digital communications and audience engagement.
- Excellent organisational and project management skills.
- Strong relationship-building skills.
- Ability to work independently and collaboratively.

Personal Qualities

- Creative, curious and proactive.
- Passionate about community action and social change.
- Excellent judgement and attention to detail.
- Commitment to equality, inclusion and sustainability.
- Enthusiastic and resilient with a positive, solutions-focused outlook.

Desirable

- Experience working in the charity, social enterprise or community energy sectors.
- Knowledge of renewable energy, climate change or sustainability policy.
- Photography, video production or graphic design skills.
- Experience supporting fundraising communications.
- Welsh language skills and/or commitment to the Welsh language
- Experience working with community-led organisations.
- Experience of stakeholder engagement with policymakers or public bodies.

Why join Awel Aman Tawe?

- Help tell the story of a greener, fairer future
- Be part of one of the UK's leading community energy organisations
- Work at the forefront of innovative renewable energy and social enterprise models
- Play a key role in tackling the climate crisis and supporting communities

Application process

Please submit a CV and covering letter outlining:

- Your suitability for the role
- Your experience in relation to the person specification
- Why you are interested in working with Awel Aman Tawe

Email your application to: croeso@awel.coop

Subject line: Communications Manager

Equal opportunities

Positions are open to all suitably qualified candidates regardless of age, disability, gender, marriage/civil partnership, pregnancy/maternity, race, religion or belief, sex, or sexual orientation.

This job is funded by Esmée Fairbairn Foundation

Pwy rydym yn chwilio amdanynt

Helpwch i adrodd stori dyfodol gwyrddach a thecach

Mae Awel Aman Tawe yn un o'r sefydliadau ynni cymunedol mwyaf llwyddiannus yn y DU.

Ers bron i dri degawd rydym wedi bod yn dangos sut y gall cymunedau fynd i'r afael â newid hinsawdd, creu swyddi lleol, lleihau tlodi tanwydd a chynhyrchu newid cymdeithasol parhaol drwy berchnogaeth gymunedol, dulliau cydweithredol ac arloesi.

Heddiw rydym yn cychwyn ar gyfnod newydd cyffrous. Yn dilyn agor Hwb y Gors, ein canolfan gymunedol carbon isel flaenllaw, rydym yn chwilio am **Reolwr Cyfathrebu** uchelgeisiol i'n helpu i rannu ein stori â chynulleidfaoedd ehangach a sefydlu AAT fel llais sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol ar gyfer atebion ymarferol i'r argyfwng hinsawdd.

Byddwch yn helpu i lunio dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y gall gweithredu hinsawdd dan arweiniad cymunedau ei gyflawni. Byddwch yn darganfod straeon ysbrydoledig am bobl, yn adeiladu perthnasoedd â newyddiadurwyr a phartneriaid, yn creu ymgyrchoedd deniadol ac yn sicrhau bod effaith ein gwaith yn cyrraedd cymunedau, cyllidwyr, llunwyr polisi a chefnogwyr.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n cyfuno sgiliau cyfathrebu rhagorol â chreadigrwydd, meddwl strategol ac angerdd dros wneud gwahaniaeth.

Telerau Cyflogaeth

Cyflogwr: Awel Aman Tawe

Yn adrodd i: Cyfarwyddwr Creadigol

Cyflog: £34–36k y flwyddyn, pro rata (yn dibynnu ar brofiad a chymwysterau)

Oriau: 3 diwrnod yr wythnos

Contract: 3 blynedd

Lleoliad: Hwb y Gors, Cwmgors, SA18 1RF (gyda rhywfaint o weithio gartref lle bo'n briodol)

Gwyliau: 25 diwrnod ynghyd â gwyliau statudol (pro rata)

Pensiwn: Cyfraniad cyflogwr o 6.5%

Dyddiad Cau Ceisiadau: 17 Awst 2026

Cyfweliadau: 1 Medi 2026

Pwy ydym ni: www.aat.cymru a www.hwbygors.cymru

Pwy ydym ni

Mae Awel Aman Tawe (AAT) yn un o sefydliadau ynni cymunedol mwyaf sefydledig y DU.

Ers 27 mlynedd rydym wedi bod yn arloesi atebion dan arweiniad cymunedau i fynd i'r afael â newid hinsawdd, tlodi tanwydd ac anghydraddoldeb economaidd. Rydym wedi datblygu dau gydweithfa ynni adnewyddadwy, wedi creu swyddi a chyfleoedd lleol ac wedi buddsoddi incwm dros ben mewn prosiectau gwydnwch cymunedol carbon isel.

Yn 2025 agorwyd Hwb y Gors, ein pencadlys carbon isel a chanolfan gymunedol flaenllaw yn Nyffryn Aman Uchaf. Heddiw mae AAT yn dangos sut y gall perchnogaeth gymunedol, creadigrwydd a gweithredu ar yr hinsawdd gydweithio i greu newid parhaol.

Rydym yn cychwyn ar gyfnod cyffrous a phwysig. Ochr yn ochr â'n hasedau ynni adnewyddadwy sefydledig, rydym yn datblygu seilwaith newydd gan gynnwys fferm solar a phrosiect storio batris a fydd yn rhannu'r cysylltiad grid â'n tyrbinau gwynt presennol (un o systemau "tribrid" cyntaf y DU). Rydym hefyd yn hyrwyddo prosiectau gwynt a solar perchnogaeth a rennir gyda datblygwyr masnachol – prosiectau gwerth miliynau o bunnoedd a fydd yn cael eu hadeiladu dros y 2–10 mlynedd nesaf. Yn ogystal, rydym yn ehangu ein portffolio o weithgareddau cymunedol, addysgol a menter.

Rydym yn sefydliad deinamig sy'n cael ei arwain gan werthoedd, gyda hanes cryf o lwyddiant a chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

Diben y Swydd

Arwain a chyflawni strategaeth gyfathrebu Awel Aman Tawe, adeiladu ein proffil fel llais blaenllaw ym maes gweithredu hinsawdd dan arweiniad cymunedau, a sicrhau bod effaith ein gwaith yn cyrraedd cymunedau, cyllidwyr, yn ehangu aelodaeth ein cynigion cyfranddaliadau cydweithredol fel adnodd buddsoddi, llunwyr polisi, buddsoddwyr, partneriaid a'r cyhoedd ehangach.

Bydd y Rheolwr Cyfathrebu yn helpu i drawsnewid profiad helaeth, tystiolaeth a llwyddiannau AAT yn straeon ac ymgyrchoedd grymus sy'n ysbrydoli gweithredu, yn denu cefnogaeth ac yn dangos bod economi werdd a theg yn bosibl ac eisoes yn digwydd.

Prif Gyfrifoldebau

Cyfathrebu Strategol

- Arwain gweithrediad a datblygiad parhaus Strategaeth Gyfathrebu AAT.
- Datblygu cynlluniau cyfathrebu a chynnwys blynyddol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r sefydliad.
- Cryfhau enw da AAT fel sefydliad blaenllaw ym maes ynni cymunedol a gweithredu ar yr hinsawdd.
- Datblygu fframweithiau negeseuon clir a naratifau sefydliadol.

- Sicrhau bod cyfathrebu yn cefnogi codi arian, cynigion cyfranddaliadau cydweithredol, datblygu partneriaethau a thwf y sefydliad.

Adrodd Straeon a Chreu Cynnwys

- Trosi canlyniadau prosiectau, data monitro a thystiolaeth werthuso yn straeon hygyrch a deniadol.
- Datblygu cynnwys sy'n seiliedig ar bedair colofn gyfathrebu AAT:
 - Atebion ar Waith
 - Llais Arbenigol
 - Straeon Dynol
 - Y Ffordd Ymlaen
- Goruchwyllo cynhyrchu cynnwys ffotograffig a fideo o safon uchel.
- Creu llyfrgell o astudiaethau achos, tystebau, ffotograffau a straeon effaith.
- Arwain cynhyrchu cylchlythyrau, adroddiadau, blogiau, crynodebau effaith a deunyddiau ymgyrchu.

Codi Proffil Hwb y Gors

- Sefydlu Hwb y Gors fel canolfan flaenllaw gydnabyddedig ar gyfer gweithredu hinsawdd a datblygu cynaliadwy dan arweiniad cymunedau.
- Datblygu cyfleoedd cyfryngol, ymweliadau a digwyddiadau arddangos sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o'r ganolfan.
- Cefnogi hyrwyddo mentrau newydd gan gynnwys yr Academi Gegin, Trafnidiaeth Gymunedol, Cyngor Ynni a datblygiadau'r dyfodol.

Cysylltiadau â'r Cyfryngau

- Meithrin a chynnal perthnasoedd â newyddiadurwyr a sefydliadau cyfryngol.
- Datblygu ymgyrchoedd rhagweithiol yn y cyfryngau a chyfleoedd i'r wasg.
- Nodi cyfleoedd i lefaryddion AAT roi sylwadau ar faterion yn ymwneud â'r hinsawdd, ynni adnewyddadwy a datblygu cymunedol.
- Drafftio datganiadau i'r wasg, ymatebion i'r cyfryngau ac erthyglau barn.
- Monitro a gwerthuso sylw yn y cyfryngau.

Cyfathrebu Digidol

- Goruchwyllo gwefannau AAT a Hwb y Gors, ac o bosibl ddatblygu gwefan ar wahân ar gyfer Egni Co-op.
- Arwain datblygiad cynnwys ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol.
- Rheoli ymgysylltiad cynulleidfaoedd ar draws llwyfannau digidol.
- Cynyddu nifer y tanysgrifwyr cylchlythyrau a gwella ymgysylltiad.
- Monitro dadansoddiadau digidol a defnyddio mewnwelediadau i wella perfformiad.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Phartneriaid

- Cefnogi cyfathrebu gyda buddsoddwyr, aelodau a chefnogwyr.

- Datblygu cyfathrebu wedi'i anelu at gyllidwyr, llunwyr polisi a phartneriaid strategol.
- Cryfhau perthnasoedd â sefydliadau gan gynnwys Ynni Cymunedol Cymru, Climate Cymru a phartneriaid eraill.
- Cefnogi ymgynghoriadau, ymgyrchoedd a mentrau ehangach y sector.

Cyfathrebu Mewnol

- Cynhyrchu cyfathrebiadau rheolaidd ar gyfer staff, ymddiriedolwyr a buddsoddwyr.
- Cefnogi staff i ddod yn lysgenhadon ac adroddwyr straeon ar gyfer y sefydliad.
- Datblygu adnoddau, templedi a chanllawiau cyfathrebu.
- Sicrhau brandio a negeseuon cyson ar draws timau.

Monitro a Gwerthuso

- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) ar gyfer cyfathrebu.
- Monitro perfformiad cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a sylw'r cyfryngau.
- Cynhyrchu adroddiadau effaith a chyfathrebu chwarterol.
- Gwerthuso gweithgareddau cyfathrebu ac argymell gwelliannau.

Manyleb Person

Hanfodol

Profiad

- O leiaf 5 mlynedd o brofiad mewn rôl gyfathrebu, marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, newyddiaduraeth neu faes cysylltiedig.
- Profiad o ddatblygu a gweithredu strategaethau cyfathrebu.
- Profiad o sicrhau sylw yn y cyfryngau a gweithio gyda newyddiadurwyr.
- Profiad o gynhyrchu cynnwys ar draws sawl platfform a sianel.
- Profiad o reoli gwefannau, cylchlythyrau a chyfryngau cymdeithasol.
- Profiad o fesur effaith cyfathrebu a dadansoddi perfformiad.

Gwybodaeth a Sgiliau

- Sgiliau ysgrifennu ac adrodd straeon eithriadol.
- Y gallu i droi gwybodaeth gymhleth, tystiolaeth a data yn gynnwys deniadol sy'n addas i'r cyhoedd.
- Dealltwriaeth gadarn o gyfathrebu digidol ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd.
- Sgiliau trefnu a rheoli prosiectau rhagorol.
- Sgiliau cryf wrth adeiladu perthnasoedd.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac ar y cyd.

Rhinweddau Personol

- Creadigol, chwilfrydig a rhagweithiol.
- Angerdd dros weithredu cymunedol a newid cymdeithasol.

- Barn gadarn a sylw rhagorol i fanylion.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, cynhwysiant a chynaliadwyedd.
- Brwdfrydig a gwydn gyda safbwynt cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar atebion.

Dymunol

- Profiad o weithio yn y sector elusennol, menter gymdeithasol neu ynni cymunedol.
- Gwybodaeth am ynni adnewyddadwy, newid hinsawdd neu bolisi cynaliadwyedd.
- Sgiliau ffotograffiaeth, cynhyrchu fideo neu ddylunio graffig.
- Profiad o gefnogi cyfathrebu codi arian.
- Sgiliau Cymraeg a/neu ymrwymiad i'r Gymraeg.
- Profiad o weithio gyda sefydliadau dan arweiniad cymunedau.
- Profiad o ymgysylltu â rhanddeiliaid, llunwyr polisi neu gyrff cyhoeddus.

Pam ymuno ag Awel Aman Tawe?

- Helpwch i adrodd stori dyfodol gwyrddach a thecach.
- Byddwch yn rhan o un o sefydliadau ynni cymunedol blaenllaw'r DU.
- Gweithiwch ar flaen y gad ym maes modelau arloesol ynni adnewyddadwy a menter gymdeithasol.
- Chwaraewch ran allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chefnogi cymunedau.

Y Broses Ymgeisio

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol yn nodi:

- Eich addasrwydd ar gyfer y swydd.
- Eich profiad mewn perthynas â'r fanyleb person.
- Pam rydych yn dymuno gweithio gydag Awel Aman Tawe.

Anfonwch eich cais drwy e-bost at: croeso@awel.coop

Llinell bwnc: Rheolwr Cyfathrebu

Cyfle Cyfartal

Mae'r swydd hon yn agored i bob ymgeisydd cymwys, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Ariennir y swydd hon gan Sefydliad Esmée Fairbairn.